**Emma Wools**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

2 Rhagfyr 2024

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I AROLYGIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI O'R YMATEB PLISMONA I YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL:** ADRODDIAD SBOTOLAU AR EFFEITHIOLRWYDD, EFFEITHLONRWYDD A CHYFREITHLONDEB YR HEDDLU (PEEL)

Rwy'n croesawu'r adroddiad arolygu ar Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL). Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad sbotolau yn cefnogi ymrwymiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru i atgyfnerthu ymatebion partneriaeth i ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled ardal Heddlu De Cymru.

Un o flaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu y Comisiynydd yw sicrhau 'Plismona Ymatebol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned'. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddir ystyriaeth agos i'r canlynol:

1. Yr argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd Dioddefwyr yn ei hadroddiad diweddar, 'Still living a Nightmare: Understanding the experiences of victims of anti-social behaviour', ac Adroddiad Sbotolau yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu, yng nghyd-destun partneriaeth De Cymru.

2. Ymateb diweddar Llywodraeth y DU i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac Adolygiad o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Swyddfa Gartref, yn amlinellu newidiadau i bolisi a deddfwriaeth yn y dyfodol o ran y gydberthynas rhwng Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phartneriaethau Diogelwch Cymuned yn y maes hwn.

3. Gofynion statudol presennol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

4. Cynnal archwiliad dwfn mewn partneriaeth i bennu'r dulliau lleol sydd ar waith i ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol; bydd hyn yn cynnwys ffocws ar yr Heddlu ac awdurdodau lleol.

**Emma Wools**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



5. Her datblygu asesiadau o anghenion a chynlluniau cyflawni sy'n seiliedig ar ddata cadarn oherwydd diffyg adnoddau dadansoddi penodedig ar draws y dirwedd partneriaethau. Mae gofynion deddfwriaethol ychwanegol sy'n golygu bod yn rhaid creu cynhyrchion data ar gyfer meysydd gwaith penodol wedi ychwanegu at y mater hwn dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion cynaliadwy.

Bydd hyn yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Ne Cymru; un enghraifft yw Rhaglen Ymateb y Swyddfa Gartref i Fannau Problemus o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:

**Ymateb Peilot i Fannau Problemus o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 23-24 a Rhaglen Ymateb i Fannau Problemus 24-25 y Swyddfa Gartref**

Ym mis Mawrth 2023, roedd De Cymru yn un o 10 ardal heddlu ledled Cymru a Lloegr a nodwyd i dreialu dull o blismona mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dyrannwyd £1 miliwn i'r Comisiynydd, gan weithio gyda Heddlu De Cymru ac awdurdodau lleol, i gynyddu presenoldeb yr heddlu a "ffigurau eraill ag awdurdod mewn lifrai", megis wardeiniaid a gweithwyr allgymorth ieuenctid, mewn mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gan weithio gyda Thimau Plismona yn y Gymdogaeth a phartneriaid Diogelwch Cymunedol, gwnaethom nodi rhannau o'r gymuned lle roedd angen dull penodol cryfach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Defnyddiwyd y cyllid i gynyddu presenoldeb yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill mewn mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae ymgyrch Sentinel, sef methodoleg a ddatblygwyd gan Heddlu De Cymru i nodi mannau problemus allweddol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais, yn cysoni data'r heddlu a data iechyd â Mynegai Niwed Caergrawnt er mwyn nodi'r mannau problemus mwyaf niweidiol a threisgar yn Ne Cymru. Cafodd y rhain eu treialu fel microrawdiau ('micro beats'). Er mwyn galluogi hyn, cafodd ardal yr heddlu ei fapio'n geo-ofodol yn 34,300 o ficrorawdiau 300m sgwâr. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ni feithrin dealltwriaeth fwy cywir o faterion, ein hymateb i'r materion hynny a'r ffordd rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau ac yn esbonio'r materion a'n hymateb ar y cyd. Wrth dreialu'r mannau problemus hyn yn genedlaethol, gwelwyd gostyngiad o 9% mewn trais, sy'n awgrymu bod y fethodoleg yn gweithio. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i wella'r gydymwybyddiaeth sefyllfaol o'r

dull gweithredu, drwy ategu'r fethodoleg bresennol â safbwyntiau gweithredol. Y bwriad yw datblygu model gweithredu cydlynol ac effeithiol ym mhob ardal leol.

Cefnogodd yr Ymateb Peilot i Fannau Problemus o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fecanweithiau presennol er mwyn helpu i sicrhau bod ymatebion i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth, yn cynrychioli anghenion ein cymunedau lleol, ac yn gwella gallu ein timau plismona yn y gymdogaeth a'n partneriaid i gydlynu ymateb amlasiantaethol sy'n datrys problemau.  Mae cynlluniau datrys problemau yn bodoli (ar lefel microrawd yn bennaf) ar gyfer pob clwstwr o fannau problemus, ac mae disgwyliad clir y bydd patrolau partneriaeth a datrys problemau yn rhan o'r cynlluniau hyn. Mae hyn ochr yn ochr â dulliau gweithredu arferol timau cymdogaeth arferol/y tîm trwyddedu.

Y Tîm Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais yn Swyddfa'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth strategol ar gyfer rhaglen yr Ymateb Peilot i Fannau Problemus o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn strategol, y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel a'r Uned Lleihau Trais (Uned Atal Trais), gan sicrhau cysondeb ar draws pob rhaglen waith, gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a lleihau achosion o ddyblygu ymdrech.  Wrth ddatblygu dull gweithredu a chynllun cyflawni'r Ymateb i Fannau Problemus o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ystyriwyd ymyriadau a ariennir ar hyn o bryd mewn mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r modd y gallant gefnogi gwaith patrôl, ac fel arall.

Mae cyflawni mentrau uchod y Swyddfa Gartref yn rhan o strwythurau partneriaeth lleol megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Grwpiau Datrys Problemau, ac mae adroddiadau ar y prif bwyntiau rheolaidd yn cydnabod y cysylltiadau rhwng rhaglenni.

**Datblygu Dangosfwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**
Drwy fuddsoddiad cychwynnol fel rhan o'r Rhaglen Plismona Mannau Problemus o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Beilot y cyfeirir ati uchod, mae porth dadansoddi data yn cael ei ddatblygu a fydd yn ein galluogi i droshaenu data partneriaeth a data'r heddlu i feithrin ymwybyddiaeth sefyllfaol unedig y gallwn ei defnyddio i ragweld ardaloedd sy'n peri pryder o ran trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol, difrod, trefn gyhoeddus a throseddau cŵn peryglus, ymhlith pethau eraill. Yn ogystal â darparu adnodd rhagfynegol/ymwybyddiaeth sefyllfaol, bydd y system hefyd yn darparu ffrwd awtomataidd ar waith patrôl a gweithgarwch plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau'r heddlu a phartneriaid yn y mannau problemus a nodwyd, i'r Swyddfa Gartref. Mae bwriad o hyd i lywio a chofnodi gweithgarwch partneriaeth drwy ddata GPS wedi'u cysylltu ag ap symudol pwrpasol. Yn y

**Emma Wools**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

cyfamser, bydd hynny'n digwydd drwy ffurflenni MS Forms wedi'u hunan-lenwi. Mae storfa wybodaeth hefyd yn cael ei hystyried fel rhan o'r datrysiad, a fydd yn cynnwys dewislenni opsiynau tactegol, adroddiadau partneriaid lleol a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a staff gweithredol ym mhob sefydliad (bydd hyn yn cynnwys lefelau mynediad).

Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Maal yn crynhoi ei barn am yr adroddiad fel a ganlyn:

*Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod canfyddiadau ac argymhellion adroddiad "The policing response to antisocial behaviour - PEEL spotlight report".*

*Rydym yn fodlon ar ganfyddiadau ein hadroddiad ein hunain ar Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL), a gadarnhaodd fod yr heddlu yn rhoi blaenoriaeth i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac a gydnabu ein gwaith gyda phartneriaid i wneud mannau cyhoeddus yn fwy diogel a'n bod yn cynnwys sefydliadau eraill wrth ddatrys problemau.*

*O ganlyniad i ffocws yr heddlu, mae nifer o argymhellion yr adroddiad sbotolau eisoes ar waith. Fodd bynnag, byddwn yn monitro cynnydd a datblygiad yn yr ardaloedd a nodwyd, gan nodi a chofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benodol, er mwyn sicrhau bod gennym broses asesu risg briodol ar waith a'n bod yn gallu gwerthuso cynlluniau datrys problemau.*

*Mae Heddlu De Cymru yn ymwybodol o'r effaith sylweddol y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ei chael ar fywydau cymunedau a dioddefwyr ac rydym yn ymrwymedig i barhau â'n gwaith a'n ffocws er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.*

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'i ymrwymiad i fonitro cynnydd a datblygiad yn y meysydd a nodwyd. Byddaf yn defnyddio fy rhaglen Craffu ac Atebolrwydd i olrhain cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

**Emma Wools**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

**Emma Wools**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Ty Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Ty Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk